# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## Cofnodion : HWLG(3)-10-10 : 27 Mai 2010

Gellir gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV trwy ddilyn y linc a ganlyn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf;jsessionid=21E162B4662DA18D43590CDFD7E72369

**Amser: 12.52 - 15.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Darren Millar, Gorllewin Clwyd (Cadeirydd)
Andrew R.T. Davies, Canol De Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Helen Mary Jones, Llanelli
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Irene James, Islwyn
Ann Jones, Dyffryn Clwyd

### Tystion

Beverlea Frowen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwella Iechyd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (eitem 2)
Parry Davies, Cyd-arweinydd Polisi dros Blant a Theuluoedd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (eitem 2)

Liz Best, Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Plant Casnewydd (eitem 3)
Gabrielle Heeney, Rheolwr Busnes, Bwrdd Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych (eitem 3)

Dr Hywel Williams, Meddyg Penodol (eitem 4)
Lin Slater, Nyrs Benodol (eitem 4)

### Staff y Pwyllgor

Marc Wyn Jones, Clerc
Sarita Marshall, Dirprwy Glerc
Siân Thomas, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau (eitemau 1-4 yn unig)

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dai Lloyd.

### Eitem 2: Ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant: tystiolaeth gan lywodraeth leol

Papur: HWLG(3)-10-10(p.1)

2.1 Fel rhan o'i ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant, bu'r Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan lywodraeth leol, gan ganolbwyntio ar fynd ymlaen â'r agenda diogelu; Adroddiad Grŵp Adolygu Llywodraeth Cymru ar fyrddau lleol diogelu plant; ariannu, rôl, cynrychiolaeth a chwmpas byrddau lleol diogelu plant; ymarferwyr rheng flaen; dosbarthu gwybodaeth; rôl Cadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant; y pecyn hunan-archwilio a gwella; ac adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar fyrddau lleol diogelu plant.

### Eitem 3: Ymchwiliad i Fyrddau Lleol Diogelu Plant: tystiolaeth gan Gydgysylltwyr Byrddau Lleol Diogelu Plant

Papur: HWLG(3)-10-10(p.2)

3.1 Fel rhan o'i ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant, bu'r Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan gydgysylltwyr byrddau lleol diogelu plant, gan ganolbwyntio ar rôl, cynrychiolaeth, cwmpas, ac aelodaeth byrddau lleol diogelu plant; partneriaethau; grwpiau sy'n agored i niwed; rôl Cadeirydd Bwrdd Lleol Diogelu Plant; ymarferwyr rheng flaen; rhannu gwybodaeth; a chynnwys plant a phobl ifanc.

### Eitem 4: Ymchwiliad y i Fyrddau Lleol Diogelu Plant: tystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Papur: HWLG(3)-10-10(p.3)

4.1 Fel rhan o'i ymchwiliad i fyrddau lleol diogelu plant, bu'r Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan feddyg a nyrs benodol, gan ganolbwyntio ar arweiniad gan Lywodraeth Cymru, rôl, cwmpas, aelodaeth ac ariannu byrddau lleol diogelu plant, ad-drefnu'r GIG, partneriaethau, a

grwpiau sy'n agored i niwed.

### Eitem 5: Ymchwiliad i Wasanaethau Newyddenedigol —adroddiad drafft

Papur: HWLG(3)-10-10(p.4)

5.1 Gwnaed cynnig gan y Cadeirydd, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

**Camau i'w cymryd**

Y tîm clercio i gynnwys newidiadau'r Aelodau yn argymhellion drafft yr adroddiad ar yr ymchwiliad i wasanaethau newyddenedigol yng Nghymru.

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau i ddarparu briff ar gynrychiolaeth gan optegwyr a fferyllwyr ar fyrddau lleol diogelu plant.

### 6: Papurau a nodwyd

6.1 Nodwyd y papurau a ganlyn gan y Pwyllgor:

HWLG(3)-09-10 : Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai 2010

HWLG(3)-10-10 : Papur 6, Fformiwla Ariannu Bwrdd Lleol Diogelu  Plant Wrecsam